Cadw

# Tuag at Fil Treftadaeth

## Adroddiad ar y Gweithdai Gwylio'r Gorwel a gynhaliwyd yng Nghaerdydd, Aberystwyth a Chyffordd Llandudno Chwefror/Mawrth 2012

Cadw, Mai 2012

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

### Y Cefndir a'r Ymagwedd

Yn ystod Chwefror a Mawrth 2012, cynhaliodd Cadw dri gweithdy i randdeiliaid, gan fwriadu clywed amrywiaeth eang o safbwyntiau ar amgylchedd hanesyddol Cymru a'r ffactorau sy'n debyg o effeithio arno yn y dyfodol. Daeth 90 o unigolion â diddordeb proffesiynol neu bersonol yn sector yr amgylched hanesyddol i'r gweithdai (ceir rhestr o aelodau'r gweithdai yn atodiad 1).

Y gweithdai oedd y cyfnod cyntaf mewn ymarfer cwmpasu a fyddai'n bwydo'r polisïau a'r strategaethau at y dyfodol, gan gynnwys yr hyn fydd yn cael ei gynnwys yn y Bil Treftadaeth arfaethedig sydd i'w gyflwyno yn 2014–15.

Roedd y cyfnod cyntaf yn golygu gwylio'r gorwel, sef y broses o gasglu syniadau newydd a nodi tueddiadau a datblygiadau newydd sy'n dechrau dod i'r amlwg ac a fydd yn effeithio ar y dyfodol. Nid darogan yr hyn fydd yn digwydd ymhen ugain mlynedd, deg ar hugain neu ddeugain oedd y bwriad, ond dangos llun o sut y gallai'r byd edrych o bosibl. Mae hynny'n ein herio i feddwl am yr hyn y byddai hynny'n ei olygu, a ddylai hynny gael ei groesawu, a sut y gallai'r canlyniadau gael eu hosgoi. Y gobaith oedd y byddai gwylio'r gorwel ar ddechrau'r ymarfer cwmpasu yn ennyn ac yn hybu trafodaeth ddilynol ar y polisi ar amgylchedd hanesyddol Cymru yn y dyfodol.

Bydd allbwn y gwaith gwylio'r gorwel yn bwydo cyfnod nesaf y gweithgareddau, sef cyfres o weithdai i sectorau penodol a fydd yn cael eu cynnal ar y cyd â'r mudiadau partner, a hynny er mwyn cynnal trafodaethau pendant ar gryfderau a gwendidau'r system gyfredol ar gyfer diogelu treftadaeth.

Mae'r adroddiad hwn yn esbonio'r ymagwedd sydd wedi'i defnyddio, gan grynhoi'r trafod a gafwyd yn y tri gweithdy.

### Y themâu allweddol a gododd o drafod rôl yr Amgylchedd Hanesyddol

Yn sesiwn cyntaf pob gweithdy cafwyd sesiwn trafod wedi'i lywio, lle'r oedd yr aelodau'n enwi'r nifer fawr o rolau gwahanol sy'n cael eu chwarae gan yr Amgylchedd Hanesyddol. Cododd sawl thema wahanol yn y trafodaethau gan ddangos yr amryfal ffyrdd y mae'r Amgylchedd Hanesyddol yn gweithio, gan greu effeithiau gwahanol drwy ddulliau **ymarferol, seicolegol, economaidd, addysgol ac amgylcheddol**.

Llwyddodd y trafodaethau hyn nid yn unig i danlinellu'r rhyng-ddibyniaeth rhwng gwaith Cadw a gwaith sefydliadau treftadaeth eraill ond hefyd yr angen i edrych y tu hwnt i'r sector treftadaeth a chymryd i ystyriaeth ddatblygiadau mewn meysydd eraill, er enghraifft addysg, yr economi, iechyd, yr amgylchedd a llawer o rai eraill, er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei gymryd i ystyriaeth yn llawn. Awgrymwyd bod angen i sector yr amgylchedd hanesyddol fod yn fwy blaenweithgar i hyrwyddo ei werth a'i botensial.

Mae Cadw mewn sefyllfa dda i feithrin rôl flaenweithgar i sicrhau bod gwneuthurwyr polisïau mewn meysydd eraill yn Llywodraeth Cymru'n cael gwybod am yr amgylchedd hanesyddol. Er enghraifft, mae'r dull yma wedi dechrau eisoes drwy gynnal trafodaethau gydag adran gynllunio Llywodraeth Cymru. Bydd meysydd eraill yn dilyn wrth i'r polisïau gael eu datblygu.

Tynnodd y trafodaethau sylw hefyd at y ffaith bod yr amgylchedd hanesyddol yn chwarae amryw o rolau sydd yn aml yn cyferbynnu â'i gilydd — o rôl economaidd bur i'r 'ymdeimlad o le' llawer llai pendant, ac roedd hyn yn thema gyson ar draws y tri gweithdy. Cafwyd dehongliadau eang hefyd o ran beth yw'r amgylchedd hanesyddol. Er ein bod yn fwriadol wedi cadw'r termau yn gyffredinol yng nghyd-destun y trafodaethau er mwyn ennyn trafod eang, efallai fod angen bod yn fwy pendant a phenodol am ystyr yr amgylchedd hanesyddol, gan y bydd hynny'n helpu dealltwriaeth y cyhoedd ehangach a hefyd yn egluro rôl Cadw.

Yn olaf, llwyddodd y trafodaethau hefyd i atgyfnerthu gwerth ymagwedd gynhwysol at ddiwygiadau, gan gynnwys ystod eang o grwpiau buddiannau er mwyn deall y materion sy'n wynebu'r amgylchedd hanesyddol.

Roedd y disgrifiadau manylach o'r rolau a nodwyd yn ystod y gweithdai yn cynnwys:

#### Rôl gymdeithasol a seicolegol

*Cysylltu pobl, lle a'r gorffennol*

- Cysylltu pobl â lleoedd, ymdeimlad o hunaniaeth a balchder, hanfod lle, ymdeimlad o le, helpu unigolion i ddeall sut maen nhw wedi'u cysylltu â'u lle, creu ymdeimlad o le
- Cysylltu pobl Cymru â'r gorffennol
- Adeiladu cof cyfun sy'n gysylltiedig â lle
- Bod yn gefnlen i'r gorffennol a sefydlu ble rydyn ni, rhoi rhywbeth i lynu wrtho mewn byd sy'n newid yn fwyfwy cyflym, rhoi angor

*Cymuned, hanes cymdeithasol, hunaniaeth leol*

- Diffinio cymeriad ardal neu gymuned
- Rhoi ffocws i'r gymuned, ysgogi gweithredu dinesig (e.e. cymuned yn dod at ei gilydd ynglŷn â chau ysgol)
- Rhoi ymdeimlad o hunaniaeth a balchder
- Cyfleu hanes cymdeithasol
- Rhoi glud sy'n dal cymunedau at ei gilydd

*Hunaniaeth genedlaethol, statws*

- Bod yn sylfaen ar gyfer hunaniaeth Cymru — hefyd storïau
- Meithrin ymdeimlad o ddinasyddiaeth
- Rhoi statws i Gymru yn y byd
- Rhoi cyfle i wella'n henw da yn y modd rydyn ni'n gwerthfawrogi'n treftadaeth

*Eraill*

- O gymorth ac o les i iechyd — corfforol a meddyliol
- Dangos gwareiddiad

### Rôl economaidd

*Potensial twristiaeth*

- Yn cynnig potensial ar gyfer twristiaeth
- Dangos arbenigrwydd Cymru o ran adeiladau a thirluniau a rhoi hunaniaeth inni, i'w gwerthu i'r byd

*Adfywio a swyddi*

- Ategu a chynnig ffocws ar gyfer adfywio
- Creu swyddi, yn uniongyrchol gysylltiedig â chadwraeth ac mewn twristiaeth.

### Rôl mewn addysg a datblygu sgiliau

*Gwersi o'r gorffennol, cyd-destun ar gyfer heddiw*

- Rhoi gwersi o'r gorffennol y gallwn ddysgu oddi wrthyn nhw, e.e. effeithiau newid yn yr hinsawdd.
- Rhoi cofnod o'r hyn sydd wedi digwydd, cysylltiad ffisegol â'r gorffennol; tystiolaeth bendant a gwirioneddol o'r hyn sydd wedi digwydd
- Ffynhonnell gwybodaeth am y gorffennol — cof y genedl
- Tystiolaeth o waith pobl a diwydiant yn gosod ble mae pobl yn byw yn ei gyd-destun

*Bwydo'r dyfodol, tanio'r dychymyg*

- Gall edrych ar y gorffennol fwydo'r dyfodol
- Symbylu addysg a dysgu
- Annog trafodaeth, codi cwestiynau — e.e. pam mae Ynys y Barri yno? Pam mae'r tai teras hyn yn y cwm hwn?
- Gall sefyll lle digwyddodd pethau danio'r dychymyg

*Meithrin sgiliau traddodiadol, ymarferol*

- Rhoi cyfle i feithrin sgiliau traddodiadol, ymarferol
- Addysgu ac ysgogi'r angen am sgiliau, e.e. sgiliau cadwraeth traddodiadol

*Rôl ymarferol*

- Rhoi cyd-destun, man cychwyn i benseiri adeiladu arno
- Rhoi dilysrwydd mewn byd rhithwir
- Darparu cartrefi, busnes (mae un rhan o dair o dai Cymru'n hŷn na 1919)
- Creu amgylchedd deniadol i fyw a gweithio ynddo; apêl esthetig

### Rôl amgylcheddol

*Gall yr hen fod yn well na'r newydd*

- Gall rhai adeiladau hanesyddol berfformio'n well o ran yr amgylchedd na rhai modern
- Mae adeiladau hanesyddol yn cynnig stoc aruthrol o ddeunyddiau a all fod yn fuddiol eto yn y dyfodol
- Mae'r amgylchedd hanesyddol yn aml yn dod o economi carbon-isel, ac felly mae'n gweithio o fewn cyfyngiadau economi carbon-isel

*Ffynhonnell gwybodaeth am y gorffennol*

- Rhoi gwybodaeth a all fwydo gweithredoedd a phenderfyniadau yn y dyfodol.

## Y tueddiadau allweddol a fydd yn effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol yn y dyfodol

Yn yr ail sesiwn ym mhob gweithdy cafwyd dadansoddiad STEEP, a oedd yn caniatáu i'r aelodau feddwl am faterion ehangach a allai gael effaith yn y dyfodol, a hynny drwy ystyried newidiadau yn y meysydd a ganlyn:

- Cymdeithasol
- Technolegol
- Economaidd
- Amgylcheddol
- Gwleidyddol

Gan weithio mewn grwpiau, gwahoddwyd yr aelodau i enwi tueddiadau a datblygiadau yn y byd ehangach a allai effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Daeth y themâu allweddol a ganlyn i'r amlwg:

- Newid yn yr hinsawdd a chynhesu byd-eang — effaith uniongyrchol ar asedau hanesyddol yn sgil newid yn yr hinsawdd a chynnydd yn lefelau'r môr ac effaith gwaith lliniaru i leihau effaith newid yn yr hinsawdd e.e. ffermydd gwynt; harneisio ynni'r llanw)
- Dirywiad adnoddau — yn enwedig prinderau byd-eang yn y dyfodol (e.e. dŵr, bwyd, tanwyddau ffosil etc).
- Datblygu economaidd (twf neu ddirywiad)
- Effaith gymharol newid technolegol ar y tirlun ac asedau treftadaeth
- Effaith gymharol newid technolegol ar bobl
- Newid yn natur strwythur yr economi
- Dylanwad y tymor byr a'r tymor hir a hynny mewn penderfyniadau economaidd a gwleidyddol
- Gwerth tybiedig y dreftadaeth — dan arweiniad arbenigwyr traddodiadol ynteu ar sail leol/gymunedol
- Cyflymder a graddfa datganoli gwleidyddol
- Effaith globaleiddio — gan gynnwys y newid yn yr amgylchedd geo-wleidyddol a chynnydd pwerau byd-eang newydd
- Newid yn natur y gymdeithas — p'un a yw'n mynd yn fwy ynteu'n llai tameidiog
- Newid yn y boblogaeth — poblogaeth sy'n heneiddio a naill ai diboblogi neu gynnydd oherwydd mewnfudo
- Y dechnoleg ymchwil a fydd ar gael, ymwybyddiaeth ohoni a sut y caiff ei defnyddio
- Yr angen cynyddol i ddatblygu ffynonellau ynni amgen
- Pwysigrwydd gwerth yr amgylchedd hanesyddol ar gyfer agenda cynaliadwyedd
- Y gagendor economaidd cynyddol rhwng y cyfoethog a'r tlawd
- Lefel ysbryd a chydlynedd cymunedol.
- Ai yn lleol ynteu yn y canol y mae'r cyfrifoldeb dros benderfyniadau ar adnoddau cyhoeddus yn gorwedd
- Rôl cymdeithasau dinesig eu gogwydd

- Graddfa datganoli pwerau yn y dyfodol ac a fydd hynny'n effeithio ar gydlynedd y Deyrnas Unedig
- Newid ym mhatrymau gweithio e.e. mwy o weithio o hirbell
- Newidiadau demograffig e.e. poblogaeth sy'n heneiddio, ymfudo
- Economi dylunio/gweithgynhyrchu/gwasanaethu — cydbwysedd ynteu diffyg cydbwysedd
- Pwysigrwydd ffactorau aneconomaidd e.e. lles
- Adnoddau — beth sydd ar gael, eu heffaith e.e. ar gludiant
- Effaith Tsiena a Brasil, India, Rwsia e.e. twristiaeth, adnoddau
- Datganoli, hunaniaeth y Cymry
- Cymuned (lleoliaeth)
- Y cwricwlwm addysgol

## Datblygu Senarios

I benderfynu ar sail y senarios, gofynnwyd i aelodau pob gweithdy bleidleisio dros y themâu yr oedden nhw'n credu:

- y bydden nhw'n cael yr effaith fwyaf ar amgylchedd hanesyddol Cymru; ac
- y bydden nhw'n fwyaf ansicr.

Cafwyd trafodaeth ymysg pawb, gan amlinellu'r senarios a ddetholwyd gan fynegi'r rheiny yn nhermau pedwar cwadrant: ar echelau o un eithaf i'r llall, gan ddibynnu ai effaith gadarnhaol ynteu effaith negyddol a gâi'r rheiny yn y dyfodol:

### Gweithdy 1 — Caerdydd

| | |
|---|---|
| Barn draddodiadol am dreftadaeth<br>Effaith negyddol technoleg newydd | Barn draddodiadol am dreftadaeth<br>Effaith gadarnhaol technoleg newydd |
| Barn gymunedol am dreftadaeth<br>Effaith negyddol technoleg newydd | Barn gymunedol am dreftadaeth<br>Effaith gadarnhaol technoleg newydd |

### Gweithdy 2 — Aberystwyth

| | |
|---|---|
| Technoleg gadarnhaol<br>Economi negyddol | Technoleg gadarnhaol<br>Economi cadarnhaol |
| Technoleg negyddol<br>Economi negyddol | Technoleg negyddol<br>Economi cadarnhaol |

### Gweithdy 3 — Cyffordd Llandudno

| | |
|---|---|
| Economi negyddol<br>Newid hinsawdd cadarnhaol | Economi cadarnhaol<br>Newid hinsawdd negyddol |
| Economi negyddol<br>Newid hinsawdd negyddol | Economi cadarnhaol<br>Newid hinsawdd cadarnhaol |

## Materion i fyfyrio arnyn nhw a'r goblygiadau ar gyfer datblygu polisïau

Yn y sesiwn terfynol, cafodd sawl mater ei nodi mewn trafodaeth ymysg pawb:

### Ymgysylltu

- Drwy'r balchder lleol y maen nhw'n ei ysbrydoli, gall asedau treftadaeth fod yn gyfrwng cadarnhaol i greu cysylltiadau â chymunedau lleol a chaniatáu adfywio. Mae angen rhoi grym i gymunedau lleol i wneud penderfyniadau am yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw
- Mae'n bosibl na fydd rhai adeiladau sydd o werth mawr ym marn eu cymunedau lleol yn cael eu gwerthfawrogi ar lefel genedlaethol gan y 'sefydliad treftadaeth'. Oes lle i system ar lefel y gymuned leol a fyddai'n rhedeg yn gyfochrog â'r system ddynodi, gan seilio'r penderfyniadau ar feini prawf gwahanol?
- Oes angen cynnwys cymunedau lleol yn fwy yn yr angen i ddiogelu eu treftadaeth nhw eu hunain?
- Yr angen i gynnwys demograffeg ehangach yn y drafodaeth ar yr amgylchedd hanesyddol. Gall fod gan bobl ifanc safbwynt gwahanol ar yr hyn sy'n bwysig, a bydd ganddyn nhw agwedd wahanol at welliannau technolegol.

### Effaith Technoleg

- Bydd y galw am fwy o brofiadau 'efelychu' yn effeithio ar ddilysrwydd.
- Mae 'atyniadau mawr' a all gynnig profiad soffistigedig yn debyg o gadw eu hapêl ond gallai ffactorau fel mynediad rhithwir ac anawsterau cludiant olygu y bydd yn anodd i'r asedau treftadaeth lleiaf ddenu ymwelwyr ac incwm.
- Mae newid technolegol (e.e. rhwydweithio cymdeithasol) yn hwyluso mwy o ddemocrateiddio ar benderfyniadau — cyfle i fynd ati o'r gwaelod tuag i fyny.
- Mae datblygu cymwysiadau rhithwir yn creu goblygiadau arwyddocaol ar gyfer asedau treftadaeth ond ochr yn ochr â hyn ceir galw o hyd am y profiad byw. Sut mae sicrhau bod y profiad rhithwir yn cydategu'r profiad go iawn, yn hytrach na chystadlu yn ei erbyn?
- Yr angen i gofleidio technoleg newydd sy'n cynnig cyfle i ymgysylltu'n well a meithrin gwybodaeth o'r amgylchedd hanesyddol e.e. cymwysiadau ffôn symudol a all addysgu plant am hanes a'u cynnwys nhw mewn ffyrdd sy'n berthnasol iddyn nhw.
- Gallai agor unigolion i'r byd ehangach drwy sianeli cyfathrebu digidol a'u hynysu'n fwy o'r cymunedau o'u hamgylch amharu ar iaith a diwylliant arbennig Cymru.
- Yr angen i sicrhau bod gennyn ni'r gallu i gadw archifau a chofnodion — gan y bydd yr amgylchedd rhithwir un diwrnod yn rhan o ffabrig yr amgylchedd hanesyddol. Mae angen inni ystyried cadwraeth ddigidol e.e. symud cofnodion oddi ar dapiau i ffurf ddigidol.

### Materion Economaidd

- Mae angen rhoi ystyriaeth i fwy o ffyrdd o wireddu potensial ein hasedau treftadaeth i'r eithaf o ran eu cyfraniad i'r economi. Mae angen meddwl ymhellach

am yr hyn y mae ar y sector preifat ei angen er mwyn gweld yr amgylchedd hanesyddol fel ased economaidd.
- Y cyfleoedd am ddatblygu economaidd a gynigir gan ein hasedau treftadaeth a'r angen i ystyried rôl y sector preifat wrth wireddu eu potensial i'r eithaf.
- Mae gan yr amgylchedd hanesyddol werth ond mae'n anos pennu beth yw'r gwerth hwnnw am ei fod yn aml yn amhendant.
- Rhaid inni beidio â mynd ati i droi'r amgylchedd hanesyddol yn ormod o gynwydd, gan ei gyflwyno fel un pecyn.
- Mae yna risg i'r amgylchedd hanesyddol os arhoswn ni am y 'dyddiau da' cyn buddsoddi. Gall adfywio'r dreftadaeth greu twf ac mae angen inni wrthsefyll y storm tra bydd yr economi'n wael a diogelu pethau at y dyfodol.
- Sut mae perswadio'r gwleidyddion neu fuddsoddwyr fod yr amgylchedd hanesyddol yn werthfawr?
- Mae angen ymdrin â heriau a chyfyngiadau twf economaidd.
- Mae angen cydnabod gwarcheidwaeth ar ffurf perchnogaeth breifat mewn ffordd glir a dod o hyd i ffyrdd i leihau'r baich.

**Materion Diwylliannol**
- A ddylai'r pwyslais ar rwymedigaeth statudol fod yn ehangach na rhestru/dynodi, ond bod yn rhwymedigaeth hefyd i fuddsoddi/hybu diwylliant/gwybodaeth?
- Gallai cyfoeth y cyfryngau sydd ar gael a ffactorau eraill hybu hyd yn oed mwy o ffocws ar yr 20fed ganrif a hanes diweddar a dirywiad yn y diddordeb mewn asedau treftadaeth hŷn ac yn y parch tuag atyn nhw.
- Angen manteisio ar y ffaith mai'r amgylchedd hanesyddol sy'n gwneud Cymru'n arbennig a dylai hyn gael ei gymryd i ystyriaeth pan fydd penderfyniadau cael eu gwneud.
- Mae'n bwysig bod gennyn ni nod gan barhau â'n gweledigaeth a chyfleu'n gwerthoedd ni fel cymdeithas.
- Mae arnon ni angen uchelgais o ran yr hyn y mae pobl yn ei wneud a'r mannau rydyn ni'n byw ynddyn nhw — mae arnon ni angen set o werthoedd a chamau dyheadol ar gyfer sector yr amgylchedd hanesyddol.
- Dylai'r Bil Treftadaeth gynnwys datganiad ffurfiol o'r hyn sy'n bwysig.

**Materion amgylcheddol**
- Yr angen i gynyddu gwybodaeth a chywiro gwybodaeth anghywir ynghylch perfformiad adeiladau hanesyddol o'u cymharu ag adeiladau newydd o ran ffactorau ecolegol ac amgylcheddol.
- Cydnabu pob senario a ddatblygwyd bod yr amgylchedd hanesyddol yn atal datblygu
- Mae yna berygl bod treftadaeth yn cael ei haberthu er mwyn lleddfu ar newid yn yr hinsawdd.
- Mae i newid yn yr effaith ddwy effaith — mae gwaith lleddfu'n effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol (tyrbinau gwynt etc) a cheir effaith uniongyrchol e.e. llifogydd, cynnydd yn lefel y môr, digwyddiadau eithriadol, effeithiau ar yr amgylchedd.
- Hyd yn oed â'r ddeddfwriaeth a'r polisïau presennol rydyn ni'n dal yn gwneud pethau anghywir e.e. ffenestri UPVC. Mae arnon ni angen gwell cydbwysedd rhwng aberthu a goroesi.
- Gall pobl roi cefnogaeth artiffisial i'r amgylchedd hanesyddol er mwyn lleddfu mesurau eraill e.e. tyrbinau.
- Os derbyniwn fod angen lleddfu newid yn yr amgylchedd, mae angen inni sicrhau bod hynny'n digwydd lle y caiff yr effaith leiaf ar yr amgylchedd hanesyddol.
- Fe allai dinasyddion amddiffyn yr amgylchedd hanesyddol pan fydd y llywodraeth yn penderfynu nad yw rhai agweddau'n haeddu cael eu harbed.
- Fe allai cymunedau gael eu pegynnu'n fwy yn y dyfodol — gallai tyrbinau gwynt ar eu tir fod o les economaidd i ffermwyr ond gallai mewnfudwyr gredu eu bod yn difetha delfryd cefn gwlad.
- Angen prif-ffrydio'r amgylchedd hanesyddol a'i gysylltu â gwaith sy'n cael ei wneud yn yr amgylchedd naturiol.
- Mae treftadaeth ddiwydiannol yn dda i economi carbon-isel.

**Gwneud Penderfyniadau**
- Mae'r amgylchedd hanesyddol yn amrywio ac mae'n cynnwys ystod eang o wahanol fathau o asedau treftadaeth. Rôl pwy yw penderfynu ar yr hyn y mae'n bwysig ei gadw? Swyddogaeth cyrff lleol ynteu cyrff cenedlaethol yw hyn?
- Mae angen i Cadw a chyrff arbenigol eraill ymgysylltu â chymunedau lleol a'u grymuso i arwain y ffordd wrth ddiogelu eu treftadaeth eu hunain, drwy godi ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth/canllawiau.
- Gallai penderfyniadau'r llywodraeth ddod o dan fwy o bwysau o blaid dull mwy poblogaidd o fynd ati a gallai'r llywodraeth gael ei llethu gan alwadau e.e. e-ddeisebau o blaid rhestru adeiladau penodol a gwybodaeth.
- Mae angen i newidiadau mewn deddfwriaeth a pholisïau adlewyrchu'r newid sy'n dod i'r amlwg oddi wrth broses o benderfynu ar gadwraeth ar sail 'defnyddiau/ffabrig' tuag at broses benderfynu sydd wedi'i seilio ar 'werthoedd' — sef un sy'n cymryd i ystyriaeth werthoedd cymdeithasol, cymunedol ac economaidd.
- Angen llais mwy cadarnhaol i Cadw a'r Awdurdodau Lleol — sydd yn aml yn cael eu gweld fel rheolwyr. Gallai corff interim gynnig yr opsiwn hwn.
- A ddylai penderfyniadau gael eu rhoi yn nwylo 'arbenigwyr treftadaeth'/pobl leol/cymunedau? Fe ellid cael pwysau cynyddol ar yr amgylchedd rheoleiddio cyfredol — gan honni ei fod yn amherthnasol ac yn bell o'r bobl.
- Gallai'r pwyslais cynyddol ar ymgysylltu cymunedol arwain at sefyllfa lle 'mae popeth yn bwysig'. Mae hyn yn awgrymu bod angen gosod rhwymedigaeth ar yr 'awdurdodau' neu'r 'gweithwyr treftadaeth proffesiynol' i sicrhau bod penderfyniadau'n dryloyw ac yn cael eu seilio ar egwyddorion sydd wedi'u derbyn.
- Byddai adnabod 'partneriaid yr ymddiriedir ynddyn nhw' ac sy'n gofalu am eiddo yn caniatáu i'r awdurdodau lleol a Cadw ganolbwyntio'u hadnoddau ble mae eu hangen.